---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth fanwl ynghylch gwerthu a rhoi cartrefi symudol yn anrheg ac aseinio cytundebau o dan ddarpariaethau yn Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013").

Mae Rheoliad 3 yn rhagnodi'r wybodaeth a'r dogfennau y mae'n rhaid i feddiannwr cartref symudol eu darparu i brynwr arfaethedig (y cyfeirir ato fel "y meddiannydd arfaethedig") cyn y gellir cwblhau gwerthiant. Mae Atodlen 1 yn rhagnodi ar ba ffurf y mae'n rhaid i'r wybodaeth honno gael ei darparu.

Mae Rheoliadau 4 (mewn perthynas â gwerthiannau) a 5 (mewn perthynas â rhoi yn anrheg) yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i feddiannwr ei darparu i berchennog y safle mewn achosion pan nad yw'r cytundeb y mae'r meddiannydd yn bwriadu ei aseinio yn gytundeb newydd (diffinnir "cytundeb newydd" ym mharagraff 9(2) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013). Mae Atodlenni 2 a 3 yn rhagnodi'r ffurfiau i'w defnyddio wrth ddarparu'r wybodaeth honno i berchennog y safle.

Pan fo meddiannydd cartref symudol yn bwriadu rhoi'r cartref symudol yn anrheg ac aseinio'r cytundeb i aelod o'i deulu (fel y'i diffinnir yn adran 55(3) o Ddeddf 2013), rhaid iddo roi'r 'tystiolaeth berthnasol' (fel y'i diffinnir ym mharagraff 12(2) o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013) i berchennog y safle. Yn unol â'r pŵer ym mharagraff 12(2)(a), mae rheoliad 6 yn rhagnodi mathau penodol o dystiolaeth a fydd yn cyfrif yn 'tystiolaeth berthnasol'. Yn unol â pharagraff 12(2)(b) mae'r 'tystiolaeth berthnasol' hefyd yn golygu unrhyw dystiolaeth foddhaol arall fod y person o dan sylw yn aelod o deulu'r meddiannydd.

Mae Rheoliad 7 yn rhagnodi ar ba seiliau y caiff perchennog y safle wneud cais i'r tribiwnlys am orchymyn yn atal y meddiannydd rhag gwerthu cartref symudol neu ei roi yn anrheg (yn ôl y digwydd), ac aseinio'r cytundeb, i'r meddiannydd arfaethedig ("gorchymyn gwrthod"). Dim ond mewn achosion pan nad yw'r cytundeb yn gytundeb newydd y mae hawl i wneud cais am orchymyn gwrthod.

Mae Rheoliad 8 yn rhagnodi uchafswm y comisiwn sy'n daladwy i berchennog y safle gan y meddiannydd newydd ar werthiant cartref symudol.

Mae Rheoliad 9 (ac Atodlenni 4 a 5) yn cynnwys y gofynion gweithdrefnol y mae'r partïon i gydymffurfio â hwy mewn cysylltiad ag aseinio'r cytundeb, ac mae rheoliad 10 yn pennu'r gofynion gweithdrefnol i gydymffurfio â hwy mewn cysylltiad â thalu comisiwn.

Mae Rheoliad 11 yn darparu pan fo rheol a wnaed gan y perchennog cyn 1 Hydref 2014 yn ymwneud â gwerthu cartref symudol, na fydd yn cael unrhyw effaith i'r graddau ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a bennir yn y rheoliad hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Asesiad Effaith a luniwyd ar gyfer Bil Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol a gellir cael copi gan yr Adran Dai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ